OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 47

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023

**Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**11.**—(1) Mae paragraff 9 (annibynyddion) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ar ôl is-baragraff (2)(f) mewnosoder—

"(g) unrhyw berson y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan y rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971, neu y tu allan i'r rheolau hynny, neu sydd â hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig, o fewn ystyr adran 2 o'r Ddeddf honno, pan fo'r person—

(i) yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022;

(ii) wedi gadael Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022; a

(iii) yn preswylio gyda'r ceisydd mewn cysylltiad â'r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin."

(3) yn is-baragraff (3) yn lle "2(a) i (c) ac (f)" rhodder "2(a) i (c), (f) ac (g)".